OES GENNYCH CHI GŴYN YN ERBYN PAPUR NEWYDD NEU GYLCHGRAWN YN Y D.U.?

Os oes gennych chi gŵyn yn erbyn stori mewn papur newydd neu gylchgrawn yn y DU na allwch ei setlo gyda'r golygydd, efallai y gallai Comisiwn Cwynion y Wasg eich helpu. Mae'n cyhoeddi llyfryn sy'n egluro sut i gwyno a bydd yn ymchwilio i gwynion ynghylch erthyglau sydd wedi'u cyhoeddi o dan Gôd Ymarfer y diwydiant. Mae'r ddau gyhoeddiad yma yn Saesneg, felly, os ydych eisiau help i'w cyfieithu dylech gysylltu â'ch canolfan gymunedol Gymraeg leol.

Mae gan y Comisiwn wefan **www.pcc.org.uk** a llinell gymorth **0845 600 2757**, y ddau ar gyfer siaradwyr Saesneg yn unig.

Gwaith Comisiwn Cwynion y Wasg yw gorfodi'r Côd Ymarfer a luniwyd gan y diwydiant papurau newydd a chyfnodolion ac sydd wedi'i gymeradwyo gan y Comisiwn ei hunan. Mae pedwar prif faes i'r Cod: cywirdeb, torri preifatrwydd, casglu newyddion ac amddiffyn pobl sy'n eithriadol o fregus, gan gynnwys unigolion y gwahaniaethwyd yn annheg yn eu herbyn drwy gyfeirio'n rhagfarnllyd neu'n ddifrïol at eu hil. Bydd y Comisiwn yn ystyried cwynion o dan y Côd yn erbyn papurau newydd a chylchgronau sy'n cael eu cyhoeddi'n bennaf ar gyfer darllenwyr yn y DU a gall hynny olygu rhai cyhoeddiadau yn Gymraeg. Fodd bynnag, bydd y cwynion yn cael eu trafod drwy gyfrwng y Saesneg.

Atebion i'ch Cwestiynau

Dyma rai atebion i'r cwestiynau a ofynnir i ni amlaf. Os oes gennych rai eraill, byddwn yn fwy na bodlon helpu.

C. Faint fydd hyn yn ei gostio i mi? Oes raid i mi gael cyfreithiwr?

A. Fydd cyflwyno cwyn yn costio dim i chi – heblaw am bris stamp ar y llythyr. Mae ein gwasanaeth yn hollol rad ac am ddim. Does dim rhaid i chi gael cyfreithiwr i gwyno ar eich rhan.

C. Dwy i ddim yn cael fy effeithio'n uniongyrchol gan y stori. Alla i gwyno?

A. Dim ond cwynion gan bobl yr effeithir yn uniongyrchol arnyn nhw gan yr hyn maen nhw'n cwyno yn ei gylch y bydd y Comisiwn yn eu hystyried fel arfer. Weithiau, gall y Comisiwn ystyried cwyn oddi wrth rywun nad yw'n cael ei effeithio'n uniongyrchol – ond dim ond os yw hynny'n codi mater o ddiddordeb cyhoeddus arwyddocaol.

C. Pa mor fuan mae'n rhaid i mi gyflwyno cwyn?

A. Fel arfer, dim ond y cwynion sy'n cael cyflwyno o fewn dau fis o'u cyhoeddi y byddwn ni'n eu hystyried. Fodd bynnag, os ydych chi wedi dechrau gohebu gyda'r golygydd yn union ar ôl y cyhoeddi a heb dderbyn ymateb boddhaol, byddwn yn derbyn cwyn hyd at ddau fis o'r dyddiad y daeth yr ohebiaeth i ben. Gallwn dderbyn cwynion ar ôl hynny os yw'r Comisiwn o'r farn fod rhesymau da dros yr oedi.

C. Pa mor hir mae'n ei gymryd i ddelio gyda'm cwyn?

A. Mae'n dibynnu pa mor gymhleth yw'r mater. Efallai na fydd ond yn cymryd ychydig ddyddiau ond ar gyfartaledd mae'n cymryd tua 35 diwrnod gwaith.

C. Alla i gael iawndal?

A. Na. Os ydych ar ôl arian yn hytrach nag ateb i'ch cwyn, bydd raid i chi gymryd achos cyfreithiol drwy'r Llysoedd.

C. All y Comisiwn atal erthygl cyn ei chyhoeddi?

A. Na. All y Comisiwn ddim gorchymyn papurau newydd a chylchgronnau i beidio â chyhoeddi erthygl, pe byddai gallu gwneud hynny mae'n amlwg y byddai'n amharu ar hawl y papur newydd neu'r cylchgrawn i ryddid mynegiant.

Os ydych o'r farn y byddai erthygl yn debyg o dorri'r Côd, gallwch gysylltu â'r golygydd yn uniongyrchol i fynegi eich pryderon. Bydd y Comisiwn yn fodlon rhoi cyngor i chi sut y dylech fynegi eich pryderon o dan delerau'r Côd neu anfon negeseuon ymlaen i olygyddion, pan yn addas.

C. A yw'r Comisiwn yn delio gyda phob papur newydd a chylchgrawn yn y DU?

A. Gall y Comisiwn ystyried yn ffurfiol gwynion ynghylch y rhan fwyaf (tua 97%) o bapurau newydd a chylchgronnau masnachol sydd ar gael yn y DU. Yn yr achosion prin pan nad yw'r papur newydd neu gylchgrawn yn dod o dan awdurdod y Comisiwn, bydd y Comisiwn yn dal i geisio – pan yn bosibl – datrys y cwynion yn ei erbyn yn anffurfiol.

C. A yw'r Comisiwn yn delio gyda chyhoeddiadau ar y rhyngrwyd?

A. Bydd y Comisiwn yn derbyn cwynion ynghylch fersiynau ar-lein o bapurau newydd a chylchgronnau, cyn belled â bod y cyhoeddiad yn derbyn y Côd Ymddygiad a bod y deunydd yn rhywbeth sy'n dod o dan delerau'r Côd.

C. A yw'r Comisiwn yn delio gyda chwynion yn erbyn defnyddiau clywedol?

A. Bydd y Comisiwn yn gallu trin cwynion ynghylch deunydd clywedol sy'n ymddangos ar wefan cyhoeddiadau. Mae'r diwydiant wedi cyflwyno nodyn canllaw ynghylch hyn.

Defnyddir trefn arferol y Comisiwn o ddelio gyda chwynion o'r fath. Bydd raid iddyn nhw gael eu cyflwyno o fewn dau fis i'r dyddiad pan ymddangosodd y deunydd diwethaf. Bydd raid i'r cwynwr ddangos sut mae'r deunydd yn torri amodau'r Côd a darparu – pan mae hynny'n bosibl – gopi dilys o'r eitem y cwynir yn ei gylch. Gall hynny fod ar ffurf trawsgrifiad. Fel ym mhob achos, bydd staff y Comisiwn ar gael i fod o gymorth wrth gyflwyno cwyn ynghylch deunydd clywedol.

C. A yw Côd y Comisiwn yn berthnasol i gynnwys sy'n cael ei gynhyrchu gan ddefnyddwyr?

A. Y prawf i'r Comisiwn yw a yw'r deunydd o dan sylw yn cael ei reoli'n olygyddol yn nhermau'r Côd Ymddygiad. Bydd sylwadau a adewir gan ddefnyddwyr mewn stafelloedd sgwrsio neu flogs heb eu golygu fel arfer y tu allan i awdurdod y Comisiwn.

C. Beth na fydd y Comisiwn y gallu delio ag ef?

A. Dydyn ni ddim yn delio gyda materion cyfreithiol neu gytundebol sy'n fwy addas ar gyfer y Llysoedd. Mae cwynion ynghylch hysbysebion, hyrwyddiadau neu gystadlaethau yn cael eu hystyried gan gyrff rheolaethol eraill - mae eu manylion ar gael oddi wrth ein Llinell Gymorth. Mewn rhai achosion prin iawn, gall y Comisiwn benderfynu peidio â delio gyda chwyn benodol.

Allwn ni chwaith ddim delio gyda materion ynghylch chwaeth, gwedduster na thramgwyddiadau.

COMISIWN CWYNION Y WASG
HALTON HOUSE
20/23 HOLBORN
LLUNDAIN EC1N 2JD

SWITSFWRDD 020 7831 0022

LLINELL GYNGOR 24 awr 07659 152656
(gadewch neges a byddwn yn eich ffonio'n ôl - I'W DEFNYDDIO MEWN ARGYFWNG YN UNIG)
FFACS: 020 7831 0025
E-BOST: COMPLAINTS@PCC.ORG.UK